Mumbles Community Council

# Minutes of Culture, Tourism and Communications Committee
# Held on Wednesday, 25 February 2026 at 2.00pm
# Hybrid Meeting at Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Cllrs. Angela O'Connor (Chair), Rob Marshall (Vice Chair), Laura Gilbert David Lewis and Martin O'Neill.

**Officers Present:** Kerry Grabham – CO, Diane Athernought - Finance Administration Officer, Sarah Thyer – Volunteer Co-ordinating Officer and Ian Hughes – CSO

| | |
|---|---|
| CT2602-01 | **Apologies for Absence**<br>Cllrs Richard Jarvis and Tim Zhou. |
| CT2602-02 | **Declarations of Interest**<br>None |
| CT2602-03 | **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**<br>To approve the minutes of the meetings held on 28 January 2026 as a true record.<br><br>**RESOLVED:** to approve the meeting minutes held on 28 January 2026 as an accurate record.<br><br>Further to the above, Cllr Marshall noted during the outstanding actions (**CT2601-04** refers) in relation to Action 61, that whilst he was prepared to co-ordinate the training of a combined choir the initial contact with primary schools should be made through a MCC Officer. |
| CT2602-04 | **Update on actions from previous meetings.**<br>The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members.<br><br>**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| CT2602-05 | **Budget Monitoring Report to 31/12/2025 - RFO, Paul Beynon**<br>Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been distributed to committee members. No questions relating to the budget reports had been provided either to the CSO or the RFO prior to the meeting.<br><br>No questions relating to the reports were raised during the meeting<br><br>**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st December 2025 |
| CT2602-06 | **Introduction – Sarah Thyer – newly appointed volunteer co-ordinator**<br><br>Sarah who commenced her role in January 2026 outlined her previous experience and her preparation for the role. |
| CT2602-07 | **Mumbles Tourism**<br><br>Mark and Gemma Hoskins, having provided background information about themselves gave a presentation on Mumbles. Life a newly developed app aimed at providing both residents and visitors to Mumbles on local services including entertainment.<br><br>Following the presentation, a discussion took place in relation to the initiative including membership proposals and costing for members and providers to the service including business.<br><br>RESOLVED Mark and Gemma Hoskins to continue liaising with MCC and additional feedback will be provided to them subsequently by committee members. Copy of presentation will be provided to CSO who will circulate it to committee members.<br><br>Mark and Gemma Hoskins left the meeting at 2.48pm |
| CT2602-08 | **St Davids Day – Update**<br><br>The Chair, Cllr O'Connor outlined that Hannah Hunter is undertaking arrangements for a St David's Day celebration from 11am on 1st March 2026 at the Hub, Underhill Park. Arrangements include a prize for the 'best dressed child', refreshment including cawl and Welsh Cakes and various Welsh-themed activities. |
| CT2602-09 | Essence of Mumbles – Update<br><br>The Chair, Cllr O'Connor stated that in future all future Essence of Mumbles events will be brought to the committee prior to their commencement. |

| | |
|---|---|
| | In the absence of Cllr Zhou, Cllr O'Neill updated the committee on how the 2026 Essence of Mumbles had received much greater public participation compared to the 2025 event. Not only had the number of entrants doubled but attendance at the launch at Theo's Coffee Shop reached about fifty people, again double that of the previous year.<br>The standard of photographs was very high with contributions from all ages and abilities within MCC.<br><br>RESOLVED Following two successful Essence of Mumbles Events this should become a regular annual event. It was noted that these events are very popular and successful for relatively little financial input by MCC. |
| **CT2602-10** | **Christmas Card 2026**<br>The Chair, Cllr O'Connor informed the committee that Full Council had approved in principle the idea of a school competition to create a Christmas Card for 2026.<br><br>**RESOLVED** That the Christmas Card will be a low-budget initiative which will be primarily digital with limited printing being carried out.<br><br>ACTION CSO to contact Joe at Mumbles Times to promote the Christmas Card competition. |
| **CT2602-11** | **Breast Cancer Awareness**<br>The Chair, Cllr O'Connor updated the committee that she is keen to progress this initiate and would welcome any additional ideas. |
| **CT2602-12** | **Easter Events 2026**<br>A number of activities were discussed including holding a further Easter Egg Hunt in Mayals following the success of the 2025 event.<br>Cllr Marshall proposed a Bonnie Tyler Themed Event, though not necessarily connected to Easter<br><br>RESOLVED Any Easter Event initiatives to be e-mailed to Chair, Cllr O'Connor<br><br>RESOLVED Cllr Gilbert to liaise with Cllr Nelson over a proposed Easter Egg Hunt in Mayals.<br><br>RESOLVED Committee members to give a Bonnie Tyler Event consideration prior to March Meeting when it will be an agenda item. |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| **CT2602-13** | **Exclusion of Press and Public**<br>Following the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded from the following item of business due to the confidential nature of the business to be transacted.<br><br>**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting.<br><br>The recording of the meeting was stopped at 3.01pm |
| **CT2602-14** | **MumblesFest 2026**<br><br>Discussion took place in relation to progressing arrangements for MumblesFest. |

**The meeting ended at 3.08pm.**

**Next Meeting : To be confirmed**

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu
# A gynhaliwyd ddydd Mercher, 25 Chwefror 2026 am 2pm
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Angela O'Connor (Cadeirydd), Rob Marshall (Is-gadeirydd), Laura Gilbert, David Lewis a Martin O'Neill.

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Prif Swyddog, Diane Athernought – Swyddog Gweinyddu Cyllid, Sarah Thyer – Swyddog Cydlynu Gwirfoddolwyr ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| CT2602-01 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br>Y Cynghorwyr Richard Jarvis a Tim Zhou. |
| CT2602-02 | **Datganiadau o fuddiant**<br>Dim |
| CT2602-03 | **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**<br>Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2026 fel cofnod cywir.<br><br>**PENDERFYNWYD**: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2026 fel cofnod cywir.<br><br>Ynglŷn â'r uchod, nododd y Cynghorydd Marshall yn ystod y camau gweithredu heb eu cwblhau (eitem **CT2601-04**) mewn perthynas â cham gweithredu 61, er ei fod yn barod i gydlynu ymarferion y côr cyfun, y dylid gwneud y cyswllt cychwynnol â'r ysgolion cynradd trwy swyddog Cyngor Cymuned y Mwmbwls. |
| CT2602-04 | **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol.**<br>Rhoddodd y swyddog cymorth pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' a oedd heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu. |
| **CT2602-05** | **Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Rhagfyr 2025 – y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon**<br>Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, eisoes wedi'u dosbarthu i aelodau'r pwyllgor. Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau cyllideb wedi'u darparu i'r swyddog cymorth pwyllgorau na'r swyddog ariannol cyfrifol cyn y cyfarfod.<br><br>Ni chodwyd unrhyw gwestiynau ynghylch yr adroddiadau yn ystod y cyfarfod.<br><br>**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Rhagfyr 2025. |
| **CT2602-06** | **Cyflwyniad – Sarah Thyer, cydlynydd gwirfoddolwyr newydd ei phenodi**<br><br>Amlinellodd Sarah, a ddechreuodd yn ei rôl ym mis Ionawr 2026, ei phrofiad blaenorol a'i pharatoadau ar gyfer y rôl. |
| **CT2602-07** | **Twristiaeth y Mwmbwls**<br><br>Wedi iddynt rannu gwybodaeth gefndirol amdanynt eu hunain, rhoddodd Mark a Gemma Hoskins gyflwyniad ar Mumbles.Life, ap newydd ei ddatblygu a'i nod yw darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol, gan gynnwys adloniant, i drigolion y Mwmbwls ac i rai sy'n ymweld â'r ardal.<br><br>Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r fenter, gan gynnwys cynigion o ran aelodaeth a chostau i aelodau a darparwyr y gwasanaeth, gan gynnwys busnesau.<br><br>PENDERFYNWYD Bod Mark a Gemma Hoskins yn parhau i gysylltu â Chyngor Cymuned y Mwmbwls a bod aelodau'r pwyllgor yn rhoi adborth ychwanegol iddynt wedi hynny. Bod copi o'r cyflwyniad yn cael ei ddarparu i'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau a fydd yn ei ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor.<br><br>Gadawodd Mark a Gemma Hoskins y cyfarfod am 2.48pm |

| | |
|---|---|
| **CT2602-08** | **Dydd Gŵyl Dewi – Diweddariad**<br><br>Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, fod Hannah Hunter yn trefnu digwyddiadau ar gyfer dathliad Dydd Gŵyl Dewi o 11am ymlaen ar 1 Mawrth 2026 yn yr Hyb, ym Mharc Underhill. Mae'r trefniadau'n cynnwys gwobr i'r 'plentyn yn y wisg orau', lluniaeth, gan gynnwys cawl a phica ar y maen, ac amryw o weithgareddau â thema Gymreig. |
| CT2602-09 | Diweddariad ar Naws y Mwmbwls<br><br>Dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, y bydd pob digwyddiad Naws y Mwmbwls yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor yn y dyfodol cyn iddynt gael eu cynnal.<br><br>Yn absenoldeb y Cynghorydd Zhou, hysbysodd y Cynghorydd O'Neill y pwyllgor fod cyfranogiad y cyhoedd yn Naws y Mwmbwls eleni wedi bod yn llawer uwch o'i gymharu â digwyddiad 2025. Nid yn unig roedd nifer y cystadleuwyr wedi dyblu, ond mynychodd oddeutu hanner cant o bobl y lansiad yn siop goffi Theo, ddwy waith yn fwy na'r nifer a fynychodd y llynedd.<br>Roedd safon y ffotograffau yn uchel iawn, gyda chyfraniadau o bob oed a gallu o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls.<br><br>PENDERFYNWYD Yn dilyn dau ddigwyddiad Naws y Mwmbwls llwyddiannus, y dylai hwn fod yn ddigwyddiad blynyddol rheolaidd. Nodwyd bod y digwyddiadau hyn yn boblogaidd ac yn llwyddiannus iawn, er gwaethaf y cyfraniad ariannol cymharol fach gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls. |
| **CT2602-10** | **Cerdyn Nadolig 2026**<br>Hysbysodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, y pwyllgor bod y cyngor llawn wedi cymeradwyo mewn egwyddor y syniad o gynnal cystadleuaeth i ysgolion i greu cerdyn Nadolig ar gyfer 2026.<br><br>**PENDERFYNWYD** Y bydd y cerdyn Nadolig yn fenter gyllideb isel a fydd yn ddigidol yn bennaf gydag ychydig o waith argraffu.<br><br>CAM GWEITHREDU Bod y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn cysylltu â Joe o'r Mumbles Times i hyrwyddo'r gystadleuaeth cerdyn Nadolig. |
| **CT2602-11** | **Ymwybyddiaeth o ganser y fron**<br>Hysbysodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, y pwyllgor ei bod yn awyddus i fwrw ymlaen â'r fenter hon ac y byddai'n croesawu unrhyw syniadau ychwanegol. |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| CT2602-12 | **Digwyddiadau'r Pasg 2026**<br>Trafodwyd nifer o weithgareddau, gan gynnwys cynnal helfa wyau Pasg arall ym Mayals yn dilyn llwyddiant y digwyddiad y llynedd.<br>Cynigiodd y Cynghorydd Marshall ddigwyddiad ar thema Bonnie Tyler, er nad oedd o reidrwydd yn gysylltiedig â'r Pasg.<br><br>PENDERFYNWYD Bod unrhyw syniadau am ddigwyddiadau'r Pasg yn cael eu hanfon dros e-bost at y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor.<br><br>PENDERFYNWYD Bod y Cynghorydd Gilbert yn cysylltu â'r Cynghorydd Nelson ynghylch yr helfa wyau Pasg arfaethedig ym Mayals.<br><br>PENDERFYNWYD Bod aelodau'r pwyllgor yn ystyried digwyddiad Bonnie Tyler cyn cyfarfod mis Mawrth pan fydd yr eitem ar yr agenda. |
| CT2602-13 | **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**<br>Yn dilyn darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cynigir y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr eitem fusnes ganlynol oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.<br><br>**PENDERFYNWYD** bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.<br><br>Stopiwyd recordio'r cyfarfod am 3.01pm |
| CT2602-14 | **Gŵyl y Mwmbwls 2026**<br><br>Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch symud ymlaen â'r trefniadau ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls. |

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.08pm.**

**Y cyfarfod nesaf: I'w gadarnhau**